Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**MiHomecare Western Bay**

**Uned 2B**
**2 Waterton Road**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 3PH**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

1 Chwefror 2022

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â MiHomecare Western Bay

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | MiHomecare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae pobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn wrth staff gofal cyson. Mae pobl yn ymwneud yn gyson â'r materion sy'n effeithio arnynt trwy adolygiadau rheolaidd o'u gofal. Mae sawl cyfle i bobl roi adborth am eu gofal a'r gwasanaeth; mae modd iddynt wneud hyn gyda'r staff gofal a/neu'n uniongyrchol gyda’r unigolyn cyfrifol. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac yn derbyn gwiriadau recriwtio da a'r hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau ynghylch cofnodi gwybodaeth. Rydym yn ymwybodol fod y gwasanaeth yn newid ei systemau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth y cael ei chofnodi’n well ac yn fwy hygyrch. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau archwiliadau rheolaidd i adolygu safon y gwasanaeth. Mae pobl a'r staff gofal yn teimlo'n hyderus o ran lleisio pryderon gyda'r tîm rheoli a gwelsom systemau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac yn eu hadolygu.

## Llesiant

Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod ganddynt berthynas dda â'r tîm rheoli a'r gwasanaeth. Dywedodd pobl wrthym fod y gwasanaeth wedi'u cefnogi i ddiwallu eu hanghenion. Mae sawl system adolygu ar waith i sicrhau y gall bobl wneud newidiadau i'w gofal a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Mae gwybodaeth bwysig ar gael i bobl, gan gynnwys manylion cyswllt.

Gwelsom asesiadau risg sy'n cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol. Mae gan bobl fynediad at y gweithiwr proffesiynol priodol pan fo angen. Mae staff gofal yn cael gwybodaeth fanwl er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r bobl am gael eu gofal a'u cymorth. Dywedodd pobl wrthym fod y gofalwyr ar amser i ddarparu'r gofal a chymorth sydd eu hangen. Caiff pobl eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth.

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u gofal a bod y staff yn eu cefnogi. Mae pobl yn teimlo'n hyderus wrth rannu unrhyw bryderon gyda'u tîm o staff gofal cyson. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac mae gwiriadau recriwtio priodol ar waith ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Mae’r rhain yn sicrhau bod y staff yn gymwys ar gyfer gweithio gydag oedolion agored i niwed. Mae gan y staff gofal berthynas dda â'r rheolwyr ac maent yn hyderus wrth adrodd unrhyw faterion iddynt. Gwelsom fod rai cymwyseddau rheolaidd yn cael eu cwblhau gyda'r staff gofal a bod y gwasanaeth yn gweithio tuag at wella hyn.

## Gofal a Chymorth

Mae cyn-asesiadau’n cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, fel gweithwyr cymdeithasol, yn cymryd rhan yng ngofal pobl pan fo'n briodol. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y gweithwyr proffesiynol yn cael ei hystyried a'i chynnwys o fewn cynllun yr unigolyn. Dywedodd y bobl a'u perthnasau sut mae'r gwasanaeth wedi gallu eu helpu yn ystod y cyfnodau anodd trwy gydol y pandemig COVID-19. Dywedodd un berthynas wrthym sut yr oedd wedi elwa ar y cymorth ychwanegol a drefnwyd ar gyfer ei hanwylyd, gan fod hynny'n rhoi'r amser rhydd iddi ddilyn ei diddordebau personol. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Maent yn hynod o dda.”*

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus gyda'u tîm gofal cyson. Mae sawl dull o roi adborth wedi'u darparu i'r staff gofal a phobl, sy'n sicrhau bod cyfleoedd ganddynt i godi unrhyw bryderon. Mae hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer y staff gofal ac mae'r rhan

fwyaf ohonynt wedi'i gwblhau. Mae gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Mae'r rhain yn sicrhau bod pobl yn gymwys i weithio gydag oedolion agored i niwed. Dywedodd staff gofal wrthym fod rheolwyr llinell yn eu gwirio i sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn dda a'u cadw'n ddiogel.

Darperir cymorth ar gyfer meddyginiaethau fel y bo'n briodol. Gwelsom fod y cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau yn llawn. Golyga hyn fod pobl yn derbyn y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Mae asesiadau risg ar waith sy'n dangos bod pobl yn cael eu hannog neu eu hatgoffa i gymryd eu meddyginiaeth ar eu pen eu hunain. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gymwys i roi meddyginiaeth. Dengys matrics asesu cymhwysedd fod rhai o'r staff gofal wedi derbyn hyfforddiant cymhwysedd. Gwelsom fod rai asesiadau risg a chynlluniau personol ar waith. Maent yn esbonio sut yr hoffai'r unigolyn gael cymorth gyda'i feddyginiaeth, ac adolygwyd y rhain yn ddiweddar. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn derbyn y lefel gywir o gymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae polisi manwl ar gyfer meddyginiaethau ar waith i staff a phobl geisio arweiniad.

Cofnodir gwybodaeth bersonol, manylion cyswllt pwysig a hanes personol pobl. Mae'r wybodaeth hon yn helpu staff gofal i ddeall yr unigolyn ac i gyrchu gwybodaeth bwysig amdano. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r unigolyn. Gwelsom sawl ffordd y gall pobl ddarparu adborth am eu gofal ac roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn uniongyrchol i'r unigolyn cyfrifol. Mae gwybodaeth fanwl ar gael er mwyn i staff gofal ddeall y cymorth sydd ei angen ar yr unigolyn. Mae asesiadau risg, fel symudedd, ar waith. Fodd bynnag, canfuom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn gyson yng nghynlluniau ac asesiadau risg pobl. Rydym yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn newid ei systemau cofnodi a monitro ar hyn o bryd. Mae'r system newydd i'w gweld yn glir a bydd yn sicrhau bod y wybodaeth briodol yn cael ei hadlewyrchu yn y cynllun.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn derbyn adborth gan bobl a staff gofal. Gwelsom fod sgyrsiau un-i-un yn cael eu cynnal, sy'n galluogi pobl i rannu eu barn ac adrodd unrhyw bryderon. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau adolygiad ansawdd gofal bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau. Mae'r ddogfen hon yn galluogi'r darparwr i ystyried yr hyn y mae wedi'i wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella.
Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn cynnal goruchwyliaeth o'r gwasanaeth trwy ddadansoddi cwynion, materion diogelu, damweiniau a digwyddiadau bob mis. Gellid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adolygiad ansawdd gofal bob chwe mis er mwyn cryfhau'r ddogfen ac o bosibl i nodi gwelliannau pellach. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gall y rhain gael eu darparu yn y Gymraeg os oes angen. Mae datganiad o

ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth a manylion cyswllt i bobl eu defnyddio.

Mae'r staff gofal yn ymddangos yn angerddol ac yn wybodus am eu rolau. Dengys y rotâu fod staff gofal yn gyson a dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u tîm gofal. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Mae'n nhw wastad ar amser.”* Mae'r staff gofal i'w gweld yn hyderus wrth godi pryderon â'u rheolwr a dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Mae'r mwyafrif o staff gofal wedi cael y gwiriadau recriwtio priodol sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gymwys i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae’r staff gofal yn derbyn hyfforddiant gorfodol ond nid yw'n glir pa hyfforddiant penodol sy'n cael ei gynnal.

Mae'r gwasanaeth yn newid y ffordd mae’n cofnodi a chadw gwybodaeth ar hyn o bryd. Golyga hyn fod llawer o'r cofnodion a welwyd ar adeg yr arolygiad yn cael eu cadw ar systemau gwahanol a/neu mewn swyddfa arall. Roedd yn rhaid gwneud cais i'r tîm Adnoddau Dynol am rai dogfennau. Canfuom fod bylchau yn y sesiynau goruchwylio, cymwyseddau a hapwiriadau ar gyfer sawl aelod o staff gofal. Gwelsom y cafodd rhai camau eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael â'r hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 21(1) | Rheoliad 21: Gofal a chymorth: Mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod gofal a chefnogaeth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant unigolion. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 59 | Nid oedd rhai gwybodaeth ar gael yn hawdd ar ddiwrnod yr arolygiad o ganlyniad i waith parhaus i newid systemau. Gwelsom fod rhai o'r wybodaeth yng nghynlluniau personol pobl yn anghyson ac nad oedd y wybodaeth yn y cynlluniau'n cael ei hadlewyrchu yn yr asesiadau risg ac mewn 'gweithgareddau' sy'n seiliedig ar dasgau gofalwyr. Canfuom fod bylchau yn ffeiliau'r staff gofal o ran eu recriwtio a chymorth parhaus. | Newydd |
| 16 | Adolygiad o'r cynllun personol | Cyflawnwyd |
| 36 | Cefnogi a datblygu staff – sesiynau goruchwylio, arfarniadau a hyfforddiant | Cyflawnwyd |
| 66 | Goruchwyliaeth ar gyfer y rheolwr | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/03/2022